**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD**

**JOINT PLANNING POLICY COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10.00am, DYDD GWENER, 21 MEHEFIN, 2013**
**10.00am, FRIDAY, 21 JUNE, 2013**

Lleoliad / Location

**YSTAFELL BWYLLGOR 1/COMMITTEE ROOM 1**
**ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI**

*Noder y lleoliad ogydd/Please note the venue

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Nia Davies**

**(01286) 679890**

**niahafdavies@gwynedd.gov.uk**

*(DOSBARTHWYD / DISTRIBUTED 13/06/12)*

**PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD**
**JOINT PLANNING POLICY COMMITTEE**

**Aelodaeth / Membership**

**Gwynedd**
Y Cynghorwyr / Councillors
Gwen Griffith, Dyfrig Jones,
Roy Owen, John Pughe Roberts,
Gethin Williams, John Wyn Williams,
Owain Williams.

**Ynys Môn / Isle of Anglesey**
Y Cynghorwyr / Councillors
Ann Griffith, Lewis Davies,
Victor Hughes, J. Arwel Roberts,
Nicola Roberts; William Thomas Hughes,
Kenneth Hughes,

**Eilyddion / Substitutes**

**Gwynedd**
Y Cynghorydd / Councillor
Dafydd Meurig,

**Ynys Môn / Isle of Anglesey**
Y Cynghorydd / Councillor
Jeff Evans

# RHAGLEN

## 1. CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd am 2013/14

## 2. IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd am 2013/14

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. DATGANIAD LLYWODRAETHU AR GYFER Y PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD

Ystyried adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio, (copi yma – papur **pinc**)

## 7. CYFRIFON TERFYNOL Y CYD-BWYLLGOR AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH, 2013

Ystyried adroddiad, y Pennaeth Cyllid, (copi yma – papur **gwyn**)

## 8. CYTUNDEB CYFLAWNI – DIWYGIO'R AMSERLEN

Ystyried adroddiad y Rheolwr Cynllunio (Polisi), (copi yma – papur **glas**)

## 9. RHAGLEN WAITH YR UNED - 2013

Cyflwynir adroddiad ar lafar gan y Rheolwr Cynllunio (Polisi)

**EITEM**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD |
| **DYDDIAD** | 21 MEHEFIN 2013 |
| **TEITL** | DATGANIAD LLYWODRAETHU AR GYFER Y PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD. |
| **PWRPAS** | CODI YMWYBYDDIAETH AELODAU'R CYD-BWYLLGOR |
| **AWDUR** | Aled Davies, Pennaeth Adran Rheoleiddio |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae Rhan 4 o Reoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2005 yn gosod gofynion penodol ar gyrff cyhoeddus sydd yn gweithredu trefniadau rheoli partneriaethol trwy gydbwyllgorau ffurfiol. Golyga hyn fod yna ofyn i adrodd yn ffurfiol i'r cyd-bwyllgor gan gyflwyno Adroddiad Cyfrifo Blynyddol.

1.2 I gyd-fynd â'r gofyn hwn dan Reol 4 y Rheoliadau, atodir drafft cychwynnol o Ddatganiad Llywodraethu ar gyfer y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd. Mae'r ddogfen wedi ei pharatoi i gynnig fframwaith i'r adroddiad cyfrifo ar ôl ystyried y gwahanol gytundebau rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn.

1.3 Dylid nodi mai datganiad ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor ydi hwn ac nid datganiad ar ran y Pwyllgor ydyw.

1.4 Cyflwynir y drafft hwn i sylw'r Pwyllgor. Ym Mis Medi, bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor fel rhan o becyn adroddiadau archwilio'r Cyd Bwyllgor.

**DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

Mae'r datganiad hwn yn cwrdd â'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol â Rheoliad 4 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005.

## Rhan 1: CWMPAS CYFRIFOLDEB

Cytunodd Cyngor Gwynedd a Cyngor Sir Ynys Môn ar 15 Mehefin 2010 i sefydlu trefniadau i gydweithio i ddarparu Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y cyd ar gyfer y ddau Awdurdod. Cytunwyd bod Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cael ei ffurfio fel corff trawsffiniol, ffurfiol, ar gyfer cymryd penderfyniadau.

Mae'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei diogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

Mae'r Pwyllgor ar y Cyd hefyd yn gyfrifol am gynnal trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, cynorthwyo gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, ac sydd yn cynnwys trefniadau i reoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol.

## Rhan 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a phrosesau, diwylliant a gwerthoedd hynny sydd yn cyfeirio a rheoli'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu gydag ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdodau sydd yn rhan o'r Pwyllgor ar y Cyd i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac i ystyried os yw'r amcanion wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

Mae'r system reolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith llywodraethu ac wedi ei ddylunio i alluogi'r Pwyllgor ar y Cyd i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'n gyfan gwbl y risg o fethiant i gyflawni polisïau ac amcanion; gall felly ond ddarparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses parhaus sy'n adnabod a blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisïau, bwriadon ac amcanion y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, i werthuso'r tebygolrwydd o risgiau'n cael eu gwireddu ac i isafu'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

Mae'r fframwaith llywodraethu berthnasol wedi bod yn ei le ar gyfer y Pwyllgor ar y Cyd ar gyfer y flwyddyn sy'n diweddu 31 Mawrth 2013 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon.

**Rhan 3: Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

### 3.1 Aelodaeth

Mae'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi ei sefydlu yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972 o dan adran 101, adran 102(1) (b) (hawl i ddau neu ragor o awdurdodau benodi cyd bwyllgor), adran 103 (gwariant cydbwyllgor i'w rannu rhwng yr awdurdodau), adran 104 (rheolau arferol awdurdodau lleol ar gyfer gwahardd aelod rhag bod yn aelod pwyllgor ar y cyd) ac adran 105 (gwahardd pleidleislo oherwydd buddiant mewn contractau ayb).

Mae cyfanswm o 14 aelod, gyda 7 aelod o Gyngor Gwynedd a 7 aelod o Gyngor Sir Ynys Môn.

### 3.2 Swyddogaethau

Mae'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cyflawni'r canlynol ar ran Cyngor Gwynedd a Cyngor Sir Ynys Môn:

- cytuno a pharatoi'n derfynol Gynllun Datblygu Lleol Adnau Gwynedd a Môn
- cytuno ar, a pharatoi'n derfynol, adroddiad ar ymatebion i ymgynghoriadau ac (yn ôl y gofyn) newid Cynllun Datblygu Lleol Adnau Gwynedd a Môn
- mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Gwynedd a Môn
- ymgynghori ar ffurfio Cytundeb Darparu, Dewisiadau Strategol a Strategaeth Ddewisol Gwynedd a Môn
- paratoi Cynllun Datblygu Lleol Adnau Gwynedd a Môn
- paratoi ac ystyried Ymatebion i Ymgynghoriadau'r Cynllun Datblygu Lleol Adnau
- derbyn a chytuno ar Adroddiad yr Arolygydd Cynllunio
- bod â chyfrifoldeb am fonitro ac adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Gwynedd a Môn
- bod â chyfrifoldeb am gynghori ar gadw trosolwg ar, ac adolygu, rhaglenni sy'n cael eu hariannu'n allanol nad ydynt yn dod o dan gylch gorchwyl y Pwyllgor ond sy'n bwysig i'r gwaith sy'n cael ei wneud gan neu ar ran y Pwyllgor ac i adnoddau sy'n cael eu rhannu. Bydd hyn yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) ymateb i gynlluniau Datblygu Lleol mewn Awdurdodau Cynllunio cyfagos ac ymateb i ddogfennau ymgynghori ynghylch Polisi Cynllunio Cenedlaethol a dogfennau cynghori.
- cadw trosolwg ar, a derbyn adroddiadau gan, yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd
- ffurfio Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Gwynedd a Môn
- penodi unrhyw banel neu weithgor er mwyn bod o gymorth i'r Pwyllgor wrth ei waith.

### 3.3 Strwythur, Rolau a Chyfrifoldebau

Er mwyn ei gynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau, mae'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi sefydlu'r canlynol:

- Bwrdd Prosiect ar y Cyd
- Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd
- Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

Mae gan bob un o'r rhain rôl penodol o fewn trefniadau llywodraethu'r Pwyllgor.

PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD

***Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd***

Arwyddwyd Cytundeb Ffurfiol rhwng y ddau awdurdod ar 13 Hydref 2011 er mwyn sefydlu'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn ffurfiol. Cyngor Gwynedd yw'r Awdurdod Lletyol, ac mae'r cytundeb ar gyfer sefydlu'r Uned yn nodi y byddai'r ddau awdurdod yn cefnogi'r Uned trwy drosglwyddo staff yn unol â gofynion TUPE i Cyngor Gwynedd. Cyngor Gwynedd sydd hefyd yn gyfrifol am ddarparu rheolaeth a gweinyddiaeth ariannol i'r Uned.

Gwneir penodiadau staff i'r Uned yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Gwynedd, ond mewn ymgynghoriad â'r Bwrdd Prosiect ar y Cyd.

O safbwynt gweithredu o dydd i ddyd, felly, mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn gweithio o fewn Fframwaith Llywodraethu Cyngor Gwynedd.

***Bwrdd Prosiect ar y Cyd***

Grŵp mewnol o swyddogion o Cyngor Gwynedd a Cyngor Sir Ynys Môn yw'r Bwrdd Prosiect ar y Cyd. Yn unol â'i Gylch Gorchwyl, mae'r Bwrdd Prosiect ar y Cyd yn:

- Rhoi mewnbwn strategol i'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd (CDLl) a sicrhau bod yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn ymlynu i'r amserlen a nodir yn y Cytundeb Cyflawni.
- Cymryd trosolwg o waith yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd a gwneud penderfyniadau gweithredol mewn perthynas â'r gwasanaeth a ddarperir gan yr Uned i'r ddau Awdurdod.

Wrth wneud hyn, mae'r Bwrdd Prosiect ar y Cyd yn:

- Sicrhau bod amcanion strategol Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn cael eu bwydo i mewn i'r broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd.
- Derbyn, ac yn rhoi sylwadau ar yr adroddiadau a gyflwynwyd gan y Rheolwr Cynllunio (Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd) a'r Uwch Reolwr, Gwasanaeth Amgylcheddol (Cyngor Gwynedd), ar y gwaith o baratoi'r CDLl ar y cyd ac ar waith yr Uned yn gyffredinol. gan gynnwys unrhyw faterion gweithredol sy'n debygol o ddenu y gwasanaeth ehangach a ddarperir gan yr Uned.
- Sicrhau bod cynnydd gyda'r gwaith o baratoi'r CDLl yn unol â'r amserlen a manylion a gynhwysir yn y Cytundebau Cyflawni a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru.

***Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd***

Grŵp mewnol o aelodau etholedig yw Panel y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Ei brif bwrpas yw ystyried a rhoi barn ar ddogfennau canolraddol, gan gynnwys dogfennau sy'n rhoi casgliadau cyfnodau cyfranogiad cyhoeddus neu ymgynghoriadau cyhoeddus er mwyn hwyluso'r gwaith o gadw at yr amserlen yn y Cytundeb Cyflawni.

Ei amcanion yw:

- Ystyried dogfennau drafft adeg camau canolraddol yn y broses paratoi'r CDLl ar y Cyd er mwyn adnabod dewisiadau neu faterion eraill i'w cynnwys yn y dogfennau drafft cyn iddynt gael eu cyhoeddi fel sail i ennyn trafodaeth a chyfranogiad cyhoeddus amdanynt, e.e. gweledigaeth y CDLl ar y Cyd, strategaethau amgen ar gyfer ardal y CDLl ar y Cyd, ystyriaeth o'r adroddiad scopio drafft i'r Asesiad Cynaladwyedd, yn unol â'r Cynllun Cynnwys Cymunedol sydd yn y Cytundeb Cyflawni.
- Derbyn, a chymryd cyfrif o'r sylwadau gan y cyhoedd ac unrhyw grŵp/fforwm budd-ddeiliaid yn ystod cyfnodau cyfranogiad cyhoeddus neu ymgynghoriad statudol cyhoeddus.

draft

**3.4 Safonau Gwasanaeth**

Yn unol â'r gytundeb ar gyfer sefydlu'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd:

- Cyngor Gwynedd yw'r Awdurdod Lletyol ar gyfer yr Uned.
- Mae'r Uned yn atebol i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, ac yn sicrhau fod cyngor a roddir i'r Pwyllgor yn gymwys ac yn unol â Deddfwriaeth gyfredol ac ymarfer da. Mae'r Rheolwr Cynllunio yn mapio allan cyfarfodydd arferaethedig y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd fel rhan o Raglen Waith, gan sicrhau cylchredeg gwybodaeth yn unol â safonau sydd wedi eu sefydlu gan Cyngor Gwynedd, fel yr Awdurdod Lletyol.
- Mae gwaith yr Uned ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Lleol sengl yn derbyn mewnbwn y Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a bydd y cyfarfodydd y Panel hwn yn cael ei fapio allan fel rhan o'r Rhaglen Waith, gyda gwybodaeth yn cael ei ddosbarthu yn unol â safonau a sefydlwyd gan Cyngor Gwynedd, fel yr Awdurdod Lletyol.
- Mae'r Uned yn ymgymryd â'r tasgau sy'n ofynnol ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol sengl, yn unol â'r Cytundeb Cyflawni a gytunwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Mae'r Uned yn adrodd i'r Bwrdd Prosiect ar y Cyd yn unol â Cylch Gorchwyl y Bwrdd Prosiect
- Mae'r Uned yn cymryd rhan mewn cyfnewid llawn ac amserol o wybodaeth gyda chwsmeriaid o fewn yr awdurdodau ac yn allanol, yn unol â'r safonau a sefydlwyd gan Cyngor Gwynedd, fel yr Awdurdod Lletyol.

Draft

**Rhan 4: EFFEITHIOLRWYDD Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

Mae’r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn gyfrifol am gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd wedi ei lywio gan waith y rheolwyr gweithredol sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, unrhyw sylw yn adroddiad blynyddol pennaeth archwilio mewnol yr awdurdod lletyol, yn ogystal â sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol ac asiantaethau adolygu eraill ac arolygiaethau.

- Gan mai Cyngor Gwynedd yw awdurdod lletyol y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, mae adolygiadau o effeithiolrwydd y Côd Llywodraethu Lleol, y Cyfansoddiad a chyfundrefn rheolaeth fewnol yr awdurdod hwnnw yn ymgorffori sylfaen lywodraethu’r Pwyllgor hefyd.
- Rhoddwyd ystyriaeth ffurfiol i aelodaeth y Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 22 Mehefin 2012. Penderfynwyd fod Aelodau y Panel yr un aelodaeth â’r Pwyllgor, gan barhau gyda’r trefniant flaenorol.

Rydym wedi cael ein cynghori ar oblygiadau canlyniad **yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu** gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, a bod y trefniadau **yn parhau i gael eu hystyried yn addas at ei ddiben yn unol â’r fframwaith llywodraethu**.

**Rhan 5: MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL**

Mae’r prosesau a ddisgrifir mewn rhannau blaenorol o’r datganiad hwn yn disgrifio’r dulliau a ddefnyddiwyd gan y Cyngor i adnabod unrhyw faterion llywodraethu arwyddocaol sydd angen sylw.

Nid yw’r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd o’r farn fod unrhyw faterion o’r fath wedi codi yn ystod asesiad o’i drefniadau llywodraethu sydd yn gwarantu sylw yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yma.

**Rhan 6: BARN**

Rydym yn bwriadau cymryd camau i ddelio gyda’r materion uchod yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu. Rydym yn fodlon bydd y camau hyn yn delio gyda’r angen i wella adnabuwyd yn yr adolygiad effeithiolrwydd a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o’r adolygiad blynyddol nesaf.

Draft

| | |
|---|---|
| **xxxxxxxxxxxxxxx** | **Cyng. XXXXX** |
| **[SWYDDOG ARWEINIOL]** | **[AELOD ARWEINIOL]** |
| **DYDDIAD** | **DYDDIAD** |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd |
| **DYDDIAD** | 21 Mehefin 2013 |
| **TEITL** | Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 |
| **PWRPAS** | Cyflwyno –<br>• Adroddiad Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2012/13, a<br>• Ffurflen Swyddogol o'r Cyfrifon, wedi'i ardystio, ond cyn Archwiliad |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn a nodi'r wybodaeth |
| **AWDUR** | Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd |

## 1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL NEWYDD

1.1 Yn ystod 2012/13, daeth i'n sylw fod gofynion adrodd penodol ynghylch cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cyd-Bwyllgorau.

1.2 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-Bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

1.3 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor ei hun yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau a chynghorau lleol eraill.

1.4 Cyngor Gwynedd yw'r Cyngor 'arweiniol' sy'n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ynglŷn â Phwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd.

1.5 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru)(Diwygio) 2010 yn mynnu bod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol, h.y. cyfrif incwm a gwariant a mantolen.

1.6 Ystyrir y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, oherwydd trosiant is na £1m, i fod yn "Is-Gyd-Bwyllgor".

1.7 Ar gyfer "Is-Gyd-Bwyllgor", rhaid cwblhau ffurflen swyddogol ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, a bydd hwnnw yn destun archwiliad ar wahân, ond nid oes rhaid cynhyrchu datganiadau ariannol statudol llawn (sy'n cydymffurfio gyda Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol "IFRS").

1.8 Mae'r ffurflen yma wedi'i ddyfeisio gan Swyddfa Archwilio Cymru ac y mae'n llawer llai trafferthus (a rhatach) i'w gynhyrchu na fyddai datganiadau statudol llawn.

## 2. CYFRIFON 2012/13

2.1 **Cyflwynir y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2012/13 yma fel Atodiad A(i).** Hefyd, cyflwynir cyfrifon cyffelyb am 2011/12, sy'n hwyluso cymariaethau (Atodiad A(ii)). Mae'r rhain i gyd ar ffurf adroddiad "alldro" syml.

2.2 **Yn Atodiad B, cyflwynir y ffurflen swyddogol am 2012/13, wedi'i gwblhau a'i ardystio cyn yr archwiliad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol,** sef Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd (Dafydd L Edwards) fel y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer y Cyd-Bwyllgor.

2.3 Bydd rhain yn destun archwiliad buan gan Swyddfa Archwilio Cymru, a bydd yr Archwilydd Penodedig (Anthony Barrett) yn cynhyrchu adroddiad "ISA260" (yn manylu ar brif ddarganfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru) i'w gyflwyno i'r Cyd-Bwyllgor ar 24 Medi 2013.

2.4 Bu llithriad i'r rhaglen waith am amryw o resymau sydd wedi golygu tanwariant yn ystod y flwyddyn ariannol 2012/13 ac sydd ag ymhylygiadau ar drefniadau ariannu'r ddau Gyngor yn 2013/14.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 **Gofynnir i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd dderbyn a nodi'r wybodaeth sy'n yr atodiadau,** sef –

- Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2012/13 – Atodiad A(i)
- Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2011/12 – Atodiad A(ii)
- Ffurflen Swyddogol ar gyfer Archwiliad 2012/13 – Atodiad B

**Atodiad A(i)**

# PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD

# (CYNGHORAU GWYNEDD A MÔN)

## CYFRIF INCWM A GWARIANT REFENIW 2012/2013

| | Cyllideb 2012/2013 £ | Cyfrifon Terfynol 2012/2013 £ | Gwahaniaeth Gor/(Tan)wariant £ |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | |
| Gweithwyr | | | |
| Cyflogau | 456,570 | 445,467 | (11,103) |
| Costau staffio eraill | 1,890 | 2,653 | 763 |
| Yswiriant Atebolrwydd | 4,400 | 4,428 | 28 |
| Cludiant | | | |
| Cerbydau Pwl | 590 | 1,206 | 616 |
| Costau Teithio | 10,890 | 6,867 | (4,023) |
| Costau tarfu | 12,580 | 5,369 | (7,211) |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | | | |
| Costau Rhedeg yr Uned | 15,460 | 8,788 | (6,672) |
| Costau Datblygu'r Cynllun | | | |
| Argraffu (cynnwys costau Cyfieithwyr) | 50,000 | 92,359 | 42,359 |
| Ffioedd Ymchwiliad Cyhoeddus | 271,460 | 74,625 | (196,835) |
| Marchnata a Chyhoeddusrwydd | 3,000 | 546 | (2,454) |
| Cyfrifiaduron a meddalwedd | 20,300 | 11,172 | (9,128) |
| Cefnogaeth Ganolog | | | |
| Ad-daliadau costau canolog | 63,640 | 67,815 | 4,175 |
| **Cyfanswm Gwariant** | 910,780 | 721,295 | (189,485) |
| **Incwm** | | | |
| Gwerthiannau eraill | 0 | (3,475) | (3,475) |
| Cyfraniad Cyngor Sir Ynys Môn | (455,390) | (358,910) | 96,480 |
| Cyfraniad Cyngor Gwynedd | (455,390) | (358,910) | 96,480 |
| **Cyfanswm Incwm** | **(910,780)** | (721,295) | **189,485** |
| **Cyfanswm Gwariant Net** | 0 | 0 | 0 |

Atodiad A(ii)

# PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD

# (CYNGHORAU GWYNEDD A MÔN)

## CYFRIF INCWM A GWARIANT REFENIW 2011/2012

| | Cyllideb 2011/2012 £ | Cyfrifon Terfynol 2011/2012 £ | Gwahaniaeth Gor/(Tan)wariant £ |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | |
| Gweithwyr | | | |
| Cyflogau | 411,080 | 389,318 | (21,762) |
| Costau staffio eraill | 8,020 | 7,672 | (348) |
| Yswiriant Atebolrwydd | 2,980 | 2,218 | (762) |
| Cludiant | | | |
| Cerbydau Pwl | 3,480 | 853 | (2,627) |
| Costau Teithio | 2,540 | 3,892 | 1,352 |
| Costau tarfu | 6,420 | 6,808 | 388 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | | | |
| Costau Rhedeg yr Uned | 3,670 | 6,504 | 2,834 |
| Costau Datblygu'r Cynllun | | | |
| Argraffu (cynnwys costau Cyfieithwyr) | 8,000 | 14,104 | 6,104 |
| Ffioedd Ymchwiliad Cyhoeddus | 120,000 | 39,857 | (80,143) |
| Marchnata a Chyhoeddusrwydd | 5,230 | 5,151 | (79) |
| Cyfrifiaduron a meddalwedd | 20,080 | 7,669 | (12,411) |
| Cefnogaeth Ganolog | | | |
| Ad-daliadau costau canolog | 59,820 | 40,120 | (19,700) |
| **Cyfanswm Gwariant** | 651,320 | 524,166 | (127,154) |
| **Incwm** | | | |
| Gwerthiannau eraill | 0 | (7,426) | (7,426) |
| Cyfraniad Cyngor Sir Ynys Môn | (325,660) | (258,370) | 67,290 |
| Cyfraniad Cyngor Gwynedd | (325,660) | (258,370) | 67,290 |
| **Cyfanswm Incwm** | (651,320) | (524,166) | 127,154 |
| **Cyfanswm Gwariant Net** | 0 | 0 | 0 |

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Is-GydbwyllgorauCymru
# FfurflenFlynyddolargyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013

Mae'n rhaid i is-gydbwyllgorau yng Nghymru, yn unol ag arferion priodol, baratoi cyfrifon incwm a gwariant a mantolen ar gyfer pob blwyddyn. Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 yn sicrhau fod Canllaw Un Llais Cymru/Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC) *Llywodraethu ac atebolrwydd i Bwyllgorau lleol yng Nghymru: Canllaw i Ymarferwyr (2011)* (Canllaw Ymarferwyr) yn arferion priodol ar gyfer is-gydbwyllgorau. Mae'r Canllaw Ymarferwyr yn nodi ffurf syml o gyfrif incwm a gwariant a mantolen a ellir ei gyflawni drwy gwblhau'r Ffurflen Flynyddol hon. **Cwblhewch bob adran sydd wedi eu hamlygu'n goch.** Mae'n bosibl y bydd ffurflenni anghyflawn neu anghywir yn gofyn am fwy o waith archwilio allanol a gallai hyn olygu fwy o gostau.

Ceir canllawiau pellach yn Adran 5 ac yn y Canllaw Ymarferwyr. Mae Adran 2 yn cynnwys cyfeiriadau at ble mae gan y Canllaw fwy o wybodaeth.

Mae trefniadau'r cyfrifon a'r archwilio'n dilyn y broses a nodir isod. **RHAID i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol (RFO) lofnodi'r dystysgrif ar y dudalen hon cyn 30 Mehefin.**Gofynnir i Bwyllgorau gwblhau'r cadarnhad isod cyn i'r Clerc gyflwyno copi o'r Ffurflen Flynyddol i'r archwilydd. Bydd yr RFO yn ardystio Adran 3 a bydd y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol ac yn llofnodi Adran 3 ar ddiwedd yr archwiliad ar ôl derbyn adroddiad yr archwilydd allanol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| RFO/Clerc yn paratoi Adran 1 a 2. Archwiliad mewnol yn cwblhau Adran 4. RFO'n ardystio'r ffurflen isod **cyn 30 Mehefin 2013** ac yn cyflwyno'r ffurflen i'r Pwyllgor. → | Y Pwyllgor yn cadarnhau bod y Ffurflen Flynyddol wedi'i chyflwyno i'r Pwyllgor.<br>RFO/Clerc yn anfon copi o'r Ffurflen Flynyddol i'r archwilydd allanol a benodwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. → | Archwilydd allanol yn cwblhau'r archwiliad ac yn anfon adroddiad ar yr archwiliad i'r Pwyllgor gan nodi'r materion a godwyd a'r farn a gynigir gan yr archwiliad. Ni fydd y Ffurflen Flynyddol yn cael ei hardystio gan yr archwilydd allanol ar y cyfnod hwn. → | RFO'n ardystio Adran 3 ac yn cyflwyno'r Ffurflen Flynyddol ac adroddiad yr archwiliad allanol i'r Pwyllgor.<br>Y Pwyllgor yn cymeradwyo'r ffurflen a'r Cadeirydd yn ardystio Adran 3.<br>Copi gwreiddiol o'r ffurflen yn cael ei hanfon at yr archwilydd. Yr Archwilydd yn ardystio Adran 3 ac yn ei dychwelyd i'r Pwyllgor i'w chyhoeddi **cyn 30 Medi 2013.** |

## Tystysgrif y Swyddog Ariannol Cyfrifol

| | | |
|---|---|---|
| **Tystysgrif o dan Reoliadau 8B (1) ac 8B(2) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd)**<br>Ardystiaf fod y datganiadau ariannol sydd wedi'u cynnwys yn Adran 1 y Ffurflen Flynyddol hon yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol y Pwyllgor, ac o'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, prun bynnag sy'n berthnasol, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013. | | |
| **Tystio cyn yr archwiliad** | **Llofnod:** DL Edwards<br>**DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID**<br>**CYNGOR GWYNEDD** | **Dyddiad: 07/06/2013** |

## Cadarnhad y Pwyllgor cyn yr archwiliad

| | |
|---|---|
| Cafodd Ffurflen Flynyddol | **PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD (CYNGHORAU GWYNEDD A MÔN)** |
| ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 ei chyflwyno i'r Pwyllgor ar: | |
| Adran 1: Yn dilyn ardystiad yr RFO, cyflwynwyd y datganiadau cyfrifon yn Adran 1 i'r Pwyllgor. | |
| Adran 2: Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor. Hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ac yn unol â chanfyddiadau ein harchwiliad, mae'r atebion i bob datganiad sicrwydd yn Adran 2 yn gywir, yn gyflawn ac yn cynrychioli ymatebion terfynol y Pwyllgor. | |
| **Llofnod y Cadeirydd:** ANGEN LLOFNOD | **Llofnod y Clerc:** ANGEN LLOFNOD |
| **Enw:** | **Enw:** |
| **Dyddiad:** DD/MM/BBBB | **Dyddiad:** DD/MM/BBBB |

Anfonwch gopi o'r Ffurflen Flynyddol, ynghyd ag unrhyw wybodaeth ychwanegol a ofynnwyd amdani, at eich archwilydd allanol penodedig. Oni ofynnir amdanynt, **peidiwch** ag anfon unrhyw gofnodion ariannol gwreiddiol i'r archwilydd allanol.Dychwelir y ffurflenni wedi'u harchwilio a'u hardystio i'r Pwyllgor i'w cyhoeddi neu i arddangos Adrannau 1, 2 a 3.

**Adran 1 – Datganiadau Ariannol ar gyfer:** PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD (CYNGHORAU GWYNEDD A MÔN)

| | Blwyddyn a ddaeth i ben | | Nodiadau a chanllawiau i'r rhai sy'n llenwi'r ffurflen |
|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2012 (£) | 31 Mawrth 2013 (£) | **Crynhowch bob ffigur i'r £ agosaf.**<br>**Peidiwch â gadael unrhyw flychau'n wag a nodi balans o £0 neu Ddim. Rhaid i bob ffigur gyd-fynd â chofnodion ariannol sylfaenol y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn berthnasol.** |
| **1.** Balansau a ddygwyd ymlaen | 0 | 0 | Cyfanswm y balansau a'r arian wrth gefn ar ddechrau'r flwyddyn fel y cofnodwyd yn y cofnodion ariannol. Rhaid iddo gyd-fynd â Llinell 7 y flwyddyn flaenorol. |
| **2.** (+) Incwm o drethu a/neu ardoll lleol | 516,740 | 717,820 | Cyfanswm y dreth a/neu ardoll lleol a dderbynwyr neu sy'n dderbyniadwy yn y flwyddyn yn cynnwys ariannu gan gorff sy'n noddi. |
| **3.** (+) Cyfanswm derbyniadau eraill | 7,426 | 3,475 | Cyfanswm incwm neu dderbyniadau a gofnodwyd yn y llyfr arian heb gynnwys eitemau ym mlwch 2. Mae'n cynnwys grantiau cymorth, dewisol a refeniw. |
| **4.** (-) Costau staff | -399,208 | -452,548 | Cyfanswm gwariant neu daliadau a wnaed i, ac ar ran, pob gweithiwr cyflogedig. Mae'n cynnwys cyflogau a thaliadau, Cynllun Talu wrth Ennill ac Yswiriant Gwladol (gweithwyr a chyflogwyr), cyfraniadau pensiwn a threuliau perthnasol. |
| **5.** (-) Llog benthyciad/ad-daliadau cyfalaf | 0 | 0 | Cyfanswm gwariant neu daliadau cyfalaf a llog a wnaed yn ystod y flwyddyn ar fenthyciadau'r Pwyllgor (os o gwbl). |
| **6.** (-) Cyfanswm taliadau eraill | -124,958 | -268,747 | Cyfanswm gwariant neu daliadau fel y cofnodwyd yn y llyfr arian heb gynnwys costau staff (Llinell 4) ac ad-daliadau llog benthyciadau/cyfalaf (Llinell 5). |
| **7.** (=) Balansau a ddygwyd ymlaen | 0 | 0 | Cyfanswm y balansau a'r arian wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhaid iddynt fod yn gyfartal â (1+2+3) - (4+5+6). |
| **8.** (+) Balansau dyledwyr a stoc | 69,559 | 106,619 | **Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:** Rhowch werth y dyledion sy'n ddyledus i'r Cyngor a balansau'r stoc sydd gennych ar ddiwedd y flwyddyn. |
| **9.** (+) Cyfanswm arian a buddsoddiadau | 0 | 0 | **Pob cyfrif:** Swm yr holl gyfrifon banc cyfredol a chadw, daliadau ariannol a buddsoddiadau sydd gennych ar 31 Mawrth. Rhaid i hyn gyd-fynd â balans cysoni'r llyfr arian yn unol â chysoniad y banc. |
| **10.** (-) Credydwyr | -69,559 | -106,619 | **Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:** Nodwch werth yr arian sy'n ddyledus gan y Pwyllgor (ar wahân i fenthyciadau) ar ddiwedd y flwyddyn. |
| **11.** (=) Balansau a ddygwyd ymlaen | 0 | 0 | **Dylai cyfanswm y balansau fod yn gyfartal â Llinell 7 uchod:** Rhowch gyfanswm (8+9-10). |
| **12.** Cyfanswm asedau sefydlog ac asedau hirdymor | 0 | 0 | Gwerth y llyfr cyfredol a gofnodwyd ar 31 Mawrth o'r holl asedau sefydlog sy'n eiddo i'r Pwyllgor ac unrhyw asedau eraill hirdymor– ee, benthyciadau i drydydd partïon, buddsoddiadau eraill a fydd yn cael eu cadw yn yr hirdymor, hy mwy na 12 mis. |
| **13.** Cyfanswm benthyciadau | 0 | 0 | Balans cyfalaf dyledus pob benthyciad o drydydd partïon fel ag yr oedd ar 31 Mawrth (gan gynnwys PWLB). |
| **14.** Nodyn Datgelu Cronfeydd Ymddiriedolaeth | Ie: – Na: – Amh.: ✓ | Ie: – Na: – Amh.: ✓ | Mae'r Pwyllgor yn gweithredu fel yr unig ymddiriedolwr ac mae'n gyfrifol am reoli (a) cronfa/cronfeydd ymddiriedolaeth/asedau (dylai darllenwyr nodi nad yw'r ffigurau uchod yn cynnwys unrhyw drafodion ymddiriedolaeth). |

## Adran 2 – Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Rydym yn cydnabod fel aelodau o'r Pwyllgor ein cyfrifoldeb am sicrhau bod yna system reoli fewnol gadarn, gan gynnwys paratoi'r datganiadau ariannol. Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, o ran datganiadau ariannol y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013, ein bod:

| | Wedi'u cytuno? | | Mae 'DO' yn golygu bod y Pwyllgor wedi: | Pennod CY |
|---|---|---|---|---|
| | Do | Naddo* | | |
| **1.** Wedi cymeradwyo'r datganiadau ariannol a baratowyd yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd) ac arferion priodol. | ✓ | | Paratoi ei ddatganiadau ariannol yn y modd a bennwyd gan y gyfraith. | 6, 12 |
| **2.** Wedi cynnal system reoli fewnol ddigonol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll a llygredd, ac wedi adolygu ei heffeithiolrwydd. | ✓ | | Gwneud trefniadau priodol ac wedi derbyn cyfrifoldeb am ddiogelu'r arian cyhoeddus a'r adnoddau dan ei ofal. | 6, 7 |
| **3.** Wedi cymryd pob cam rhesymol i sicrhau ein hunain nad oes yna unrhyw fater gwirioneddol neu bosibl sy'n mynd yn groes i unrhyw gyfreithiau, rheoliadau a chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar allu'r Pwyllgor i weinyddu ei fusnes neu ei drafodion ariannol. | ✓ | | Gwneud pethau sydd ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud yn unig ac wedi cydymffurfio â'r codau ymarfer a'r safonau wrth fynd ati i wneud y pethau hyn. | 6 |
| **4.** Wedi darparu cyfle priodol i etholwyr weithredu eu hawliau yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd). | ✓ | | Rhoi cyfle i bob person â diddordeb i archwilio a gofyn cwestiynau ynghylch cyfrifon y Pwyllgor. | 6, 23 |
| **5.** Rydym wedi gwneud asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Pwyllgor ac wedi cymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno mesurau rheoli mewnol a/neu yswiriant mewnol lle bo angen. | ✓ | | Ystyried y risgiau ariannol a'r risgiau eraill mae'n eu hwynebu wrth weithredu'r Pwyllgor ac wedi mynd i'r afael â'r rhain yn briodol. | 6, 9 |
| **6.** Wedi cynnal system archwilio mewnol digonol ac effeithiol ar gyfer cofnodion ariannol a systemau rheoli'r Pwyllgor gydol y flwyddyn ac wedi derbyn adroddiad gan yr archwilydd mewnol. | ✓ | | Trefnu i berson cymwys, sy'n annibynnol o'r rheoliadau a'r gweithdrefnau ariannol, i roi barn wrthrychol ar a yw'r rhain yn diwallu anghenion y Pwyllgor. | 6, 8 |
| **7.** Wedi cymryd camau gweithredu priodol ar bob mater a godwyd mewn adroddiadau blaenorol archwilwyr mewnol ac allanol. | ✓ | | Ymateb i faterion a ddaeth i'w sylw gan archwiliadau mewnol ac allanol. | 6, 8, 23 |
| **8.** Wedi ystyried a yw unrhyw ymgyfreitha, rhwymedigaethau neu ymrwymiadau, digwyddiadau neu drafodion, sy'n digwydd naill ai yn ystod neu ar ôl diwedd y flwyddyn, yn effeithio'n ariannol ar y Pwyllgor a, lle bo'n briodol, ein bod wedi eu cynnwys ar y datganiadau cyfrifyddu. | ✓ | | Datgelu popeth a ddylai ynghylch ei fusnes yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys digwyddiadau sy'n cael eu cynnal ar ôl diwedd y flwyddyn os ydynt yn berthnasol. | 6 |

| | Do | Naddo | Amh. | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **9.** Cronfeydd Ymddiriedolaeth – yn ein rôl fel ymddiriedolwyr rydym wedi:<br>• Cyflawni ein cyfrifoldeb o ran atebolrwydd am y gronfa/cronfeydd, gan gynnwys adrodd yn ariannol ac os oes angen, cynnal ymchwiliad neu archwiliad annibynnol. | | | ✓ | Bodloni ei holl gyfrifoldebau fel yr unig ymddiriedolwr rheoli dros ymddiriedolaeth neu ymddiriedolaethau lleol. | 3, 6 |

* Ar ddalen ar wahân, darparwch esboniadau i'r archwilydd allanol ar bob ateb a nodwyd fel 'naddo'; a disgrifiwch pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.

## Adran 3 – Ardystio a chymeradwyo

### Cymeradwyaeth ac ardystiad y Pwyllgor yn dilyn yr archwiliad

Y Pwyllgor sy’n gyfrifol am baratoi’r datganiadau ariannol yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y’u diwygiwyd) ac am baratoi Ffurflen Flynyddol sy’n:

- crynhoi cofnodion ariannol y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013; ac yn
- cadarnhau ac yn darparu sicrwydd ar y materion hynny sy’n bwysig i gyfrifoldebau’r archwilydd allanol.

| | |
|---|---|
| **Ardystiad gan yr RFO**<br>**Tystysgrif dan Reoliad 8 Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (Rheoliad 8B (1), 8B (2) ac 8B(3))**<br>Ardystiaf fod y datganiadau ariannol sydd wedi’u cynnwys yn y Ffurflen Flynyddol hon yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol y Pwyllgor, ac o’i incwm a’i wariant, neu’n cyflwyno’r derbyniadau a'r taliadau’n briodol, p’un bynnag sy’n berthnasol, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013. | **Cymeradwyaeth gan y Pwyllgor**<br>**Cymeradwyaeth i ddatganiadau ariannol dan Reoliad 9 (3) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y’u diwygiwyd) a’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol**<br>Cadarnhaf fod y datganiadau ariannol hyn a’r datganiad llywodraethu blynyddol wedi’u cymeradwyo gan y Pwyllgor o dan gyfeirnod cofnodion y Pwyllgor:<br>CYFEIRNOD Y COFNODION |
| **Llofnod yr RFO:** ANGENLLOFNOD | **Llofnod y Cadeirydd:**ANGENLLOFNOD |
| **Enw:** ANGEN ENW | **Enw:**ANGEN ENW |
| **Dyddiad:** DD/MM/BBBB | **Dyddiad:**DD/MM/BBBB |

### Tystysgrif Archwilio Allanol

Mae’r archwilydd allanol yn cynnal yr archwiliad yn unol â chanllawiau a gyflwynwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Ar sail ei adolygiad o’r Ffurflen Flynyddol a’r wybodaeth gefnogol, mae’n adrodd ar a oes yna unrhyw fater yn codi sy’n peri gofid iddynt nad yw’r ddeddfwriaeth a’r gofynion rheoleiddio perthnasol wedi’u bodloni.

Ardystiwn ein bod wedi cwblhau’r archwiliad o’r Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 ar gyfer:

| |
|---|
| **Pwyllgor** |

### Adroddiad yr archwilydd allanol

| |
|---|
| [Ar wahân i’r materion a nodwyd isod]* Ar sail ein hadolygiad, mae’r wybodaeth sydd wedi’i chynnwys yn y Ffurflen Flynyddol, yn ein barn ni, yn cydymffurfio â’r arferion priodol ac nid ydym wedi gweld unrhyw faterion sy’n peri gofid i ni nad yw’r ddeddfwriaeth a’r gofynion rheoleiddio perthnasol wedi’u bodloni.<br><br>[Mae[’r materion hyn ynghyd ag]* unrhyw faterion eraill nad ydynt yn effeithio ar ein barn yr ydym yn eu cyflwyno at sylw’r Pwyllgor/cyfarfod wedi’u cynnwys yn ein hadroddiad i’r Pwyllgor ar _____________________.]<br>(*Dilëwch fel y bo’n briodol) |

| | |
|---|---|
| **Llofnod yr archwilydd allanol:** | |
| **Enw’r archwilydd allanol:** | **Dyddiad:** |

## Adran 4 – Adroddiad archwiliad mewnol blynyddol:

**PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD (CYNGHORAU GWYNEDD A MÔN)**

Mae archwiliad mewnol y Pwyllgor, a gynhaliwyd yn annibynnol ac ar sail asesiad risg, wedi cynnwys cynnal asesiad dethol o gydymffurfiaeth â gweithdrefnau a'r mesurau rheoli perthnasol y disgwylir iddynt fod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol a fydd yn dod i ben 31 Mawrth 2013.

Mae'r archwiliad mewnol wedi'i gynnal yn unol ag anghenion y Pwyllgor a'r gwaith a drefnwyd. Ar sail y canfyddiadau yn y meysydd a archwiliwyd, ceir crynodeb o gasgliadau'r archwiliad mewnol yn y tabl hwn. Isod, nodir yr amcanion rheoli mewnol a chasgliadau'r archwiliad mewnol ar a oedd yr amcanion rheoli canlynol yn cael eu cyflawni gydol y flwyddyn ariannol, ym mhob ffordd bwysig, i safon sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion y Pwyllgor.

| | Wedi'u cytuno? | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Do** | **Naddo*** | **Amh.** | **Heb ei gynnwys**** |
| **1.** Mae llyfrau cyfrifon priodol wedi'u cadw'n briodol gydol y flwyddyn. | ✓ | | | |
| **2.** Mae'r Pwyllgor wedi bodloni ei reoliadau ariannol, y taliadau wedi'u cefnogi gan anfonebau, y gwariant wedi'i gytuno a'r TAW wedi ei gyfrifo'n briodol. | ✓ | | | |
| **3.** Asesodd y Pwyllgor y risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac adolygodd ddigonolrwydd y trefniadau i reoli'r rhain. | | | | ✓ adolygu 2013/14 |
| **4.** Cafodd y gofynion trethu/ardoll lleol blynyddol eu seilio ar broses gyllidebu ddigonol, cafodd y cynnydd yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n rheolaidd ac roedd yr arian wrth gefn yn briodol. | | | ✓ | |
| **5.** Derbyniwyd yr incwm disgwyliedig yn llawn, ar sail prisiau cywir, cafod ei gofnodi'n briodol a'i fancio'n syth, a chyfrifwyd y TAW yn briodol. | ✓ | | | |
| **6.** Cefnogwyd taliadau arian mân yn briodol gan dderbyniadau, cymeradwywyd y gwariant a chyfrifwyd y TAW yn briodol. | | | ✓ | |
| **7.** Talwyd cyflogau i weithwyr a lwfansau i aelodau yn unol â chymeradwyaeth y Pwyllgor, a gweithredwyd gofynion y Cynllun Talu wrth Ennill a'r Yswiriant Gwladol yn briodol. | ✓ | | | |
| **8.** Cafodd y cofrestri asedau a buddsoddiadau eu cwblhau ac yn gywir a'u cynnal yn briodol. | | | ✓ | |
| **9.** Cafodd cysoniadau cyfrifon banc cyfnodol a diwedd blwyddyn eu gwneud yn briodol. | ✓ | | | |
| **10.** Cafodd datganiadau ariannol a baratowyd yn ystod y flwyddyn eu paratoi ar sail cyfrifo cywir (derbyniadau a thaliadau/incwm a gwariant). Roeddent yn cyd-fynd â'r llyfr arian, yn cael eu cefnogi gan lwybr archwilio digonol o gofnodion sylfaenol, a, lle bo'n briodol, cofnodwyd dyledwyr a chredydwyr yn briodol. | ✓ | | | |
| **11.** Cronfeydd ymddiriedolaeth (gan gynnwys ymddiriedolaethau elusennol). Mae'r Pwyllgor wedi bodloni ei gyfrifoldebau fel ymddiriedolwr. | | | ✓ | |

| **Roedd yna fesurau rheoli digonol ar gyfer unrhyw feysydd risg a nodwyd gan y Pwyllgor (rhestrwch unrhyw feysydd risg eraill isod neu ar dudalennau ar wahân os bydd angen):** | Wedi'u cytuno? | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Do** | **Naddo*** | **Amh.** | **Heb ei gynnwys**** |
| **13.** | | | | |
| **14.** | | | | |

* Os atebwyd 'naddo', nodwch y goblygiadau a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw wendid o ran rheoli a nodwyd (ychwanegwch dudalennau ar wahân os oes angen).

** Os atebwyd 'heb ei gynnwys' nodwch pryd y gwnaethpwyd y gwaith archwilio mewnol mwyaf diweddar yn y maes hwn a phryd y bwriedir ei wneud nesaf, neu os nad oes angen ei gynnwys, rhaid i'r archwiliad mewnol esbonio pam.

| |
|---|
| **Enw'r person a wnaeth yr archwiliad mewnol: DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG, CYNGOR GWYNEDD** |
| **Llofnod y person a wnaeth yr archwiliad mewnol:**  |
| **Dyddiad: 07/06/2013** |

## Adran 5 – Nodiadau cyfarwyddyd ar gwblhau Ffurflen Flynyddol 2013

1. I gael canllawiau, darllenwch y Canllaw Ymarferwyr (*Llywodraethu ac atebolrwydd i Bwyllgorau lleol yng Nghymru: Canllaw i Ymarferwyr 2011 (Cymru)*)- sydd ar gael gan Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC). Mae'n cynnwys popeth sydd ei angen arnoch ar gyfer archwiliad diwedd y flwyddyn ariannol a'r archwiliad statudol.
2. **Mae Cyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru (www.wao.gov.uk/cymraeg/goodpractice/2594.asp) yn darparu mwy o wybodaeth am y broses cyfrifon ac archwilio ynghyd â chanllawiau ar faterion llywodraethu.**
3. Sicrhewch fod y person priodol wedi cwblhau Adrannau 1, 2 a 4 (hy, dim blychau pinc gwag) a bod y tystysgrifau ar dudalen 1 wedi'u llofnodi a'u dyddio'n briodol. Peidiwch â gwneud unrhyw newidiadau i'r ffurflen gyflawn. Os na ellir osgoi hyn, rhowch linell drwy'r cofnodion anghywir, sicrhewch fod y newidiadau wedi'u llofnodi â llythrennau cyntaf eich enw a'ch bod wedi darparu esboniad i'r archwilydd. **Peidiwch â defnyddio hylif cywiro**. Bydd ffurflenni blynyddol anghyflawn neu rai sy'n cynnwys newidiadau heb eu cymeradwyo a/neu esbonio neu hylif cywiro'n cael eu dychwelyd heb eu harchwilio.
4. Defnyddiwch y rhestr wirio a ddarparwyd isod. Gofynnwch i ail berson, fel eich archwilydd mewnol neu'r Cadeirydd, i adolygu eich Ffurflen Flynyddol i sicrhau ei bod hi'n gyflawn cyn anfon copi at yr archwilydd.
5. Sicrhewch fod y copi o'r cysoniad banc y byddwch yn ei anfon i'ch archwilydd gyda'r copi o'r Ffurflen Flynyddol yn cynnwys eich **holl** gyfrifon banc a balansau ariannol. Os nad oes yna unrhyw eitemau cysoni, nodwch hyn a darparwch dystiolaeth o falansau'r banc. Os oes gan eich Pwyllgor unrhyw fuddsoddiadau, nodwch eu gwerth ar y cysoniad banc. Dylai'r archwilydd allu cytuno â'r cysoniad banc ar Linell 9 yn Adran 1. Gellir cael mwy o gymorth ar gyfer cysoniad banc yn y Canllaw i Ymarferwyr*.
6. **Esboniwch** unrhyw amrywiannau sylweddol yn y datganiadau ariannol **yn llawn**. Mae'r archwilydd am wybod eich bod **chi'n** deall y rhesymau dros y newid. Dylech gynnwys unrhyw ddadansoddiad perthnasol ac ansoddol fel y dangosir yn yr enghreifftiau yn y Canllaw i Ymarferwyr ac nid copi o'ch cyfrifon manwl yn unig.
7. Peidiwch ag anfon unrhyw wybodaeth i'r archwilydd nad yw wedi gofyn yn benodol amdani. Nid yw hyn yn helpu. Sicrhewch eich bod yn amgáu'r holl wybodaeth yr holwyd amdani gan yr archwilydd. Os oes angen i'r archwilydd adolygu gwybodaeth na holwyd amdani, ail-ofyn am wybodaeth, derbyn cysoniad banc anghyflawn neu esboniad am amrywiannau, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi dalu costau ychwanegol, ac mae gan yr archwilydd yr hawl i godi ffioedd ychwanegol.
8. Sicrhewch fod Adran 1 yn cyflwyno'r ffigur cywir! Sicrhewch hefyd fod y balans a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol (Llinell 7 o 2012) yn cyfateb â'r balans a ddygwyd ymlaen yn y flwyddyn gyfredol (Llinell 1 o 2013).
9. **Peidiwch â chwblhau Tystysgrif yr Archwiliad Allanol yn Adran 3.** Yr archwilydd allanol fydd yn cwblhau hon wedi i'r Pwyllgor gymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol ar ôl iddo dderbyn *adroddiad* yr archwilydd allanol ar faterion sy'n codi.
10. **Atebwch unrhyw ohebiaeth a ddaw gan yr archwilydd allanol yn syth.** Bydd hyn o gymorth i chi fodloni eich rhwymedigaethau statudol a bydd yn lleihau cost yr archwiliad i'r Pwyllgor.

| Rhestr wirio cwblhau – Bydd ateb 'Naddo' yn golygu nad ydych wedi bodloni'r gofynion o bosibl | | Wedi ei wneud? | |
|---|---|---|---|
| **Cyflwyniad cyntaf i'r archwilydd allanol** | | **Do** | **Naddo** |
| **Cyfrifon** | A yw'r RFO wedi ardystio'r dudalen flaen (Rheoliad 8B (1) ac 8B (2)(a)) cyn 30 Mehefin 2013? | | |
| | A yw'r papurau sydd i'w hanfon at yr archwilydd allanol yn cynnwys esboniad o amrywiadau mawr rhwng y llynedd a'r flwyddyn hon? | | |
| | A yw'r cysoniad banc fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2013 yn cyd-fynd â Llinell 9? | | |
| | A yw'r holl flychau pinc yn Adrannau 1 a 2 wedi'u cwblhau ac a oes esboniadau wedi'u darparu lle bo angen? | | |
| **Pob adran** | A yw'r holl flychau pinc yn Adrannau 1 a 2 wedi'u cwblhau ac a oes esboniadau wedi'u darparu lle bo angen? | | |
| | A yw'r holl wybodaeth yr holwyd amdani gan yr archwilydd allanol wedi'i hanfon gyda'r Ffurflen Flynyddol hon? Cyfeiriwch at yr hysbysiad o'r archwiliad ac unrhyw amserlenni ychwanegol a ddarparwyd gan eich archwilydd allanol. | | |

| Cyflwyniad terfynol i'r archwilydd allanol wedi derbyn adroddiad yr archwilydd allanol ar faterion sy'n codi | | Do | Naddo |
|---|---|---|---|
| **Cyfrifon** | A yw'r RFO wedi ardystio Adran 3 (Rheoliad 8B (2)(b)) cyn i'r Pwyllgor gymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol? | | |
| **Adroddiad yr Archwiliad** | A yw'r Pwyllgor wedi derbyn ac ystyried adroddiad yr archwiliad allanol cyn cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol? | | |
| **Cymeradwyaeth** | A yw'r Cadeirydd wedi llofnodi a dyddio Adran 3 mewn da bryd fel y gall yr archwilydd ardystio Adran 3 a'i dychwelyd i'r Pwyllgor cyn 30 Medi 2013? | | |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd** |
| **DYDDIAD** | **21 Mehefin 2013** |
| **ENW** | **Cytundeb Cyflawni – diwygio'r amserlen** |
| **PWRPAS** | **I roi gwybod i'r Pwyllgor am yr angen i ddiwygio'r amserlen paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a chynnig amserlen ddiwygiedig ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Bod y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cymeradwyo'r amserlen ddiwygiedig ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus;**<br><br>**Bod adroddiad am yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei chyflwyno i'r Cynghorau ym mis Medi 2013 ar gyfer cael cymeradwyaeth i'r Cytundeb Cyflawni diwygiedig.** |
| **AWDUR** | **Rheolwr Cynllunio (Polisi) Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn** |

**1. Y cefndir**

1.1 Mae'r broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn wedi cychwyn ers 2011.

1.2 Mae Cytundeb Cyflawni (CC) yn dweud sut fydd y ddau Gyngor yn mynd trwy'r broses o baratoi'r CDLl ar y Cyd, gan gynnwys amserlen ar gyfer ei gwblhau a phryd a sut fydd cymunedau'n gallu cyfrannu i'r gwaith. Fe wnaeth Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd gymeradwyo'r CC ar 13 Medi a 20 Hydref 2011, yn y drefn honno. Fe gafodd ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'i gefnogi ganddo yn Nhachwedd 2011. Cafodd y CC ei gyhoeddi'n ystod mis Tachwedd 2011 ac fe ellir ei weld ar y tudalennau gwe ganlynol:

http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1178/CytundebCyflawniCymeradwyo.pdf

http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/2013/05/08/a/w/d/Cytundeb-Cyflawni.pdf

1.3 Mae yna lawer iawn o waith wedi cael ei wneud ers i ni gychwyn ar y daith ond mae hi'n amlwg erbyn hyn fod angen ychydig mwy o amser i baratoi fersiwn llawn o'r CDLl ar y Cyd, sef y Cynllun Adnau, sy'n un 'cadarn'. Er mwyn i'r Cynllun Adnau fod yn un 'cadarn' mae'n bwysig sicrhau ei fod yn seiliedig ar dystiolaeth rymus a bod amser digonol wedi cael ei roi i gymunedau a rhanddeiliaid eraill gyfrannu i'r broses. Os na roddir digon o amser o'r neilltu rŵan, mae yna risg y bydd gweddill y broses ar ôl y Cynllun Adnau'n cymryd mwy o amser a chreu llawer mwy o waith, er mwyn gallu delio efo sylwadau a neu gwrthwynebiadau y gellir eu hosgoi yn y lle cyntaf.

1.4 Roedd y CC cyfredol yn rhagweld y byddai'r ddau Gyngor mewn sefyllfa i gymeradwyo'r Cynllun Adnau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus statudol rhwng Medi a Hydref 2013. Mae'n rhaid i gynghorau gadw golwg ar sut mae nhw'n cadw at y CC a gwneud newidiadau os oes angen gwneud hynny.

1.5 Mae yna sawl rheswm pam fod angen mwy o amser. Mae Atodiad 6 o'r CC cyfredol yn adnabod rhai risgiau a allai gael effaith ar yr amserlen ac mae rhai risgiau wedi amlygu eu hunain. Mae Atodiad 1 i'r adroddiad yma'n son mwy am y risgiau hynny. Gweler bod cyfuniad o'r ffactorau yma gyda'i gilydd (gwaith ychwanegol nad oedd posib ei osgoi, gallu rhai rhanddeiliaid i ymateb o fewn amserlen benodedig, etholiad lleol 'annisgwyl' a threfniadau ac adegau adrodd mwy na gynlluwyd) wedi arwain at yr angen am fwy o amser i wneud yn siŵr fod Cynllun Adnau 'cadarn' yn cael ei baratoi.

## 2 Y Cynnig

2.1 Mae Tabl 1 isod, sydd wedi cael ei dynnu allan o ran 3.3.1 o'r CC 2011, yn dangos yr amserlen wreiddiol ac amserlen ddiwygiedig. Mae'r newidiadau yn yr amserlen wedi cael eu hamlygu mewn print bras yng ngholofn olaf y tabl.

2.2 Fe ragwelir y byddwn yn cyrraedd y cyfnod ymgynghori statudol am y Cynllun Adnau (cam 6 yn y Tabl) yn Mai/ Mehefin 2014 ar ol cael cymeradwyaeth y ddau Gyngor erbyn Mawrth 2014. Rhagwelir y byddwn yn cyrraedd y cam mabwysiadu yn Mai 2016. 'Roedd yr amserlen wreiddiol wedi rhoi mwy na digon o amser i gael dogfennau cefndir yn eu lle i'w cyflwyno i'r Llywodraeth. Mae llawer o'r dogfennau hynny yn eu lle'n barod ac mae'r rhaglen i gael y gweddill yn barod yn ei le eisoes. Dim ond adendwm i rai o'r dogfennau gwreiddiol fydd ei angen er mwyn cofnodi tystiolaeth fwy diweddar. Mae'r amserlen a welir yng ngholofn olaf Tabl 1 yn ddigonol i wneud hynny.

2.3 Mae Rheoliadau'r CDLl yn dweud bod rhaid i gytundebau cyflawni fod yn destun penderfyniad Cyngor cyn eu cyflwyno i'r Llywodraeth am ei gefnogaeth. Dyweder bod rhaid i'r broses o wneud newidiadau i gytundeb cyflawni ddilyn yr un drefn a ddefnyddir i baratoi cytundeb cyflawni yn y lle cyntaf. Felly bydd angen ymgynghori efo'r cyhoedd cyn gellir cyflwyno CC diwygiedig i Gyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Mon.

2.4 Os caiff y CC diwygiedig ei gymeradwyo gan y ddau Gyngor a'i gefnogi wedyn gan y Llywodraeth, fe gaiff ei gyhoeddi ar wefan y ddau Gyngor a'i roi mewn mannau cyhoeddus fel llyfrgelloedd cyhoeddus lleol a swyddfeydd y Cynghorau.

2.5 Nid ydym yn gwybod faint o sylwadau fyddwn yn derbyn yn ystod yr ymgynghori cyhoeddus am y Cynllun Adnau. Felly'n unol a disgwyliadau'r Llywodraeth, mae'r dyddiadau ar gyfer y camau ar ol ymgynghori ar y Cynllun Adnau sydd yn Nhabl 1 (7 i 13) yn parhau yn rhai dangosol. Gellir ystyried yr amserlen ar ol ymgynghori ar y Cynllun Adnau'n fwy manwl o fewn 3 mis ar ol diwedd y cyfnod ymgynghori amdano er mwyn cadarnhau'r amserlen. Ni fydd angen ail-ymgynghori am hynny na chyflwyno CC diwygiedig i'r Llywodraeth. Fe fydd yr wybodaeth fydd mewn mannau cyhoeddus yn cael ei ddiweddaru ac fe fydd pawb fydd wedi gwneud sylwadau am y Cynllun Adnau'n cael gwybodaeth yn uniongyrchol gan y Cynghorau.

**Tabl 1 Amserlen paratoi'r CDLl ar y Cyd gwreiddiol a diwygiedig**

| **Cam yn y broses paratoi** | | **Amserlen** | **Amserlen ddiwygiedig** |
|---|---|---|---|
| 1. | Paratoi a chyhoeddi'r Cytundeb Cyflawni terfynol (*Rheoliad 5 – 10)* | Ionawr – Tachwedd 2011 | Ionawr – Tachwedd 2011 |
| 2. | Adolygu'r sail tystiolaeth a'i ddatblygu | Gorffennaf 2010 – Gorffennaf 2012 | Gorffennaf 2010 – **Hydref 2012** |
| 3. | Cyfranogiad Cyn- adneuo – paratoi'r dogfennau cyn-adneuo a fydd yn amlinellu'r prif amcanion a'r hoff strategaeth (*Rheoliad 14).* Ni fydd hwn yn ddrafft llawn o'r CDLl ar y Cyd | Ionawr 2011 –Gorffennaf 2012 | Ionawr 2011 –**Hydref 2012** |
| 4. | Ymgynghori Cyn-adneuo – cyfnod 6 wythnos (*Rheoliad 15*). Ymgynghoriad ffurfiol am y dogfennau cyn-adneuo a'r adroddiad asesiad cynaladwyedd | Medi 2012 – Hydref 2012 | **Mai – Mehefin 2013** |
| 5. | Cyfranogiad – datblygu'r sail | Tachwedd 2012 – Medi | **Gorffennaf 2013 -** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | tystiolaeth ymhellach a pharatoi CDLl ar y Cyd Adneuo (cynllun drafft llawn) a fydd wedi selio ar y sail dystiolaeth, sy'n cynnwys yr ymateb a gafwyd i'r dogfennau cyn-adneuo | 2013 | **Mawrth 2014** |
| 6. | Rhoi'r CDLl ar y Cyd a dogfennau cysylltiol ar adnau – cyfnod ymgynghori 6 wythnos (*Rheoliad 17*) | Hydref 2013 – Tachwedd 2013 | **Mai – Mehefin 2014** |
| | Amserlen ddangosol | | |
| 7. | Ystyried sylwadau am y CDLl ar y Cyd Adnau (*Rheoliad 18 & 19)* | Rhagfyr 2013 – Mehefin 2014 | **Gorffennaf 2014 – Ionawr 2015** |
| 8. | Cyhoeddi sylwadau am safleoedd amgen, ymgynghori amdanynt – cyfnod 6 wythnos (*Rheoliadau 20 & 21)* | Ionawr 2014 – Chwefror 2014 | **Medi – Hydref 2014** |
| 9. | Cyflwyno'r CDLl ar y Cyd i Lywodraeth Cymru ar gyfer Archwiliad (*Rheoliad 22)* | Tachwedd 2014 | **Chwefror 2015** |
| 10. | Archwiliad Cyhoeddus Annibynnol (*Rheoliad 23)* | Ebrill 2015 | **Mehefin 2015** |
| 11. | Cyhoeddiad Adroddiad yr Arolygydd (*Rheoliad 24)* | Ionawr 2016 | **Mawrth 2016** |
| 12. | Mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd (*Rheoliad 25)* | Ebrill 2016 | **Mai 2016** |
| 13. | Monitro ac Adolygu | Adroddiad blynyddol | Adroddiad blynyddol |

## 3 Casgliadau

3.1 Fe wnaeth y Cynghorau lunio amserlen yn 2011 ar gyfer mynd trwy'r broses o baratoi'r CDLl ar y Cyd. Wrth wneud hynny fe gafodd nifer o risgiau posib eu hadnabod ac yn anffodus mae rhai o rheini wedi cael eu gwireddu, Ar ben hynny roedd yr angen i ymdopi gydag effeithiau cynnal etholiad lleol ym Mon ar adeg wahanol i etholiad lleol yng Ngwynedd, yn ogystal a'r angen i adrodd i'r ddau awdurdod yn amlach na'r disgwyl.

3.2 Mae'r amserlen ddiwygiedig sydd wedi cael ei adnabod yn yr adroddiad yma ar gyfer paratoi'r Cynllun Adnau yn un realistig. Nid oes disgwyl i gynghorau roi amserlen derfynol yn ei le ar gyfer y camau ar ol ymgynghori am y Cynllun Adnau (sef camau 7 i 13). Er hynny credir bod

yr amserlen a welir yn y Tabl ar gyfer rheini yn rhoi darlun mor gywir ag sy’n bosib.

3.3 Ar sail yr wybodaeth sydd i law mae’n bendant fod angen am ragor o amser i baratoi’r Cynllun Adnau. Mae’r Rheoliadau’n galluogi cynghorau i gytuno ar amserlen ddiwygiedig.

## 4 Argymhelliad

4.1 Bod y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cymeradwyo’r amserlen ddiwygiedig ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus;

4.2 Bod adroddiad am yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei chyflwyno i’r Cynghorau ym mis Medi 2013 ar gyfer cael cymeradwyaeth i’r Cytundeb Cyflawni diwygiedig.

## Atodiad 1 – Risgiau sydd wedi dylanwadu ar yr amserlen

<table>
<tr><th>Risg</th><th>Effaith bosibl</th><th>Mesurau lliniaru</th></tr>
<tr><td>1. Gofynion pellach yn deillio o ddeddfwriaeth neu ganllawiau cenedlaethol newydd</td><td>• Angen ymgymryd â rhagor o waith er mwyn diwygio’r Cynllun a’r rhaglen waith.<br>• Rhaglen yn llithro.</td><td>Monitro gwaith sy’n cael ei wneud o ran deddfwriaethau a chanllawiau newydd fel ein bod mewn sefyllfa dda i ymateb mor gynnar ac effeithiol a phosib i unrhyw newid.</td></tr>
<tr><td colspan="3">Sylwadau Mehefin 2013<br><br>Ers i’r gwaith ar y CDLl ar y Cyd ddechrau mae yna ambell bolisi cynllunio cenedlaethol wedi acel ei gyhoeddi sydd rhaid rhoi sylw iddo wrth baratoi’r CDLl ar y Cyd neu sydd gan oblygiadau mewn ffurf arall:<br><br>➢ Cyhoeddi 5ed Gyfrol o Bolisi Cynllunio Cymru<br>➢ Ymgynghori ar bolisi a chanllawiau am faterion gwastraff<br>➢ Proses newydd y Cyd-Astudiaeth Tir ar gyfer Tai sy’n golygu mae’r Cynghorau, trwy’r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, sy’n arwain yn hytrach na’r Llywodraeth.</td></tr>
<tr><td>2. Llwyth gwaith trymach na’r disgwyl</td><td>• Rhaglen yn llithro.<br>• Methu adrodd i bwyllgorau’r ddau Gyngor mewn da bryd</td><td>• Sicrhau amserlen realistig sydd â hyblygrwydd iddo.<br>• Sicrhau ein bod yn ystyried faint o amser a gymerir i wneud pob agwedd o’r gwaith.<br>• Ystyried adnoddau ychwanegol.</td></tr>
<tr><td colspan="3">Sylwadau Mehefin 2013<br><br>Mae delio efo nifer arwyddocaol o wrthwynebiadau i wybodaeth mewn CCA am ynni gwynt ar y tir a chynorthwyo’r Gwasanaeth Cynllunio i roi arweiniad am y maes yma (e.e. rhestr wirio) wedi arwain at lwyth gwaith trwm anisgwyl. Er mwyn gallu lleihau’r effaith ar amserlen y CDLl ar y Cyd, roedd rhaid penodi ymgynghorydd allanol i gynorthwyo gyda gwaith ymgynghori ychwanegol am y CCA. Ond fe olygodd hynny bod rhywfaint o amser wedi cael ei golli i benodi cwmni.<br><br>Mae’n bwysig bod y CDLL ar y Cyd a’i bolisiau’n seiliedig ar dystiolaeth</td></tr>
</table>

**Atodiad 1 – Risgiau sydd wedi dylanwadu ar yr amserlen**

| Risg | Effaith bosibl | Mesurau lliniaru |
|---|---|---|
| credadwy, cyfoes a chadarn. Mae yna lawer iawn o dystiolaeth wedi cael ei gasglu ac yn dal i gael ei gasglu er mwyn cael y wybodaeth angenrheidiol. Mae rhywfaint o'r gwaith yma'n cael ei wneud gan swyddogion o fewn yr Uned Polisi Cynlunio ar y Cyd tra mae rhywfaint yn cael ei wneud gan ymgynghorwyr allanol a gwasanaethau eraill o fewn y Cynghorau. Mae'r dystiolaeth yma'n cynnwys Asesiad Capasiti Ynni Adnewyddol, Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, Asesiad Oblygiadau Llifogydd Strategol, Asesiad Tir Cyflogaeth, Asesiad Manwerthu, Asesiad Hyfywdra Tai Fforddiadwy. Trwy edrych ar waith mae Cynghorau eraill wedi ei wneud mae'n glir pa mor bwysig ydy gwneud y gwaith yma. Mae ambell astudiaeth wedi cymryd mwy o amser oherwydd yr angen i edrych ar ardal fwy nag arfer a dibyniaeth ar gael gwybodaeth gan 3ydd parti. Bu'n rhaid i ambell swyddog wneud mwy o waith nag oedd wedi ei ragweld wrth gynorthwyo'r ymgynghorwyr allanol neu wrth wneud gwaith eu hunain.<br><br>Derbyniwyd mwy na ragwelwyd o safleoedd i'w cynnwys ar y Gofrestr Safleoedd Posib, oedd yn ei dro'n golygu mwy o amser yn cael ei dreulio'n rhoi'r wybodaeth mewn cronfa data/ SWDd (GIS). | | |
| 3. Gwrthwynebiadau sylweddol gan gyrff ymgynghori | Rhaglen yn llithro. | • Hyblygrwydd yn yr amserlen.<br>• Sicrhau ein bod yn ymgynghori yn fuan (cyn y cyfnodau ymgynghori ffurfiol) gyda chyrff penodol. |
| 4. Diffyg consensws gwleidyddol | • Methu cytuno ar agweddau allweddol yn y Cynllun.<br>• Gwrthdaro yn tanseilio'r hyn sydd yn cael ei nodi yn y Cynllun. | Ceisio datrys cymaint o wrthdaro a phosib yng nghyfarfodydd Panel y CDLl ar y Cyd a drwy drafod gydag Aelodau blaengar e.e. arweinyddion portffolio. |
| 5. Methu adrodd i bwyllgor ar adeg priodol | • Rhaglen yn llithro | • Trafod anghenion y broses gyda threfnwyr rhaglen blynyddol pwyllgorau'r ddau Gyngor mewn da bryd |

**Atodiad 1 – Risgiau sydd wedi dylanwadu ar yr amserlen**

**Sylwadau Mehefin 2013**

Daeth i'r amlwg bod y disgwyliadau o ran adrodd i bwyllgorau mewn dau Gyngor yn fwy cymleth na ragwelwyd wrth gychwyn y broses, e.e. yr angen adrodd i Bwyllgor Craffu Cyngor Sir Ynys Mon a Chyngor llawn – camau nad oedd wedi cael ei ragweld wrth lunio'r amserlen yn 2011.

| | | |
|---|---|---|
| 6. Diffyg consensws rhwng gwahanol adrannau o'r Cynghorau | Methu cytuno ar agweddau allweddol yn y Cynllun. | • Sicrhau ein bod yn cyd-fynd a blaenoriaethau'r Cynghorau (Strategaeth Gymunedol, Cynllun 3 mlynedd).<br>• Sicrhau bod gweithdrefnau cyd-drafod mewnol effeithiol mewn lle o ran y Cynllun. |
| 7. Oedi gyda chyfieithu/proses argraffu | Rhaglen yn llithro. | • Defnyddio cyfieithwyr allanol.<br>• Rhannu'r gwaith cyfieithu i wahanol unigolion/ gwmnïoedd.<br>• Ystyried adnoddau ychwanegol. |
| 8. Diffyg arian ar gael drwy gydol y broses o baratoi'r Cynllun | • Methu ariannu tasgau gwaith penodol a phwysig e.e. fel rhan o'r sail tystiolaeth.<br>• Rhaglen yn llithro. | Monitro cyson er mwyn sicrhau fod yr arian yn cael ei ddefnyddio yn y modd mwyaf effeithiol posib. |
| 9. Newid/Colli staff | • Colli capasiti a sgiliau.<br>• Mwy o bwysau ar y swyddogion eraill.<br>• Rhaglen yn llithro. | Ystyried adnoddau ychwanegol. |

**Sylwadau Mehefin 2013**

Absenoldebau staff heb ei ddisgwyl oherwydd salwch wedi cael effaith ar yr amserlen trwy orfod ailgyfeirio staff arall a gwneud trefniadau dros dro.

## Atodiad 1 – Risgiau sydd wedi dylanwadu ar yr amserlen

| | | |
|---|---|---|
| 10. Diffyg arbenigedd | • Safon y gwaith yn is.<br>• Methu adnabod gwendidau a nodi awgrymiadau wrth wirio gwaith gan ymgynghorwyr.<br>• Problemau o ran sicrhau 'cadernid' y Cynllun. | Hyfforddi staff penodol i arbenigo mewn gwahanol feysydd. |
| 11. Yr Arolygaeth Gynllunio methu cwrdd â'r amserlen/targedau | Oedi o ran cynnal yr ymchwiliad ac/neu o ran derbyn yr adroddiad. | Sicrhau cyswllt agos gyda'r Arolygaeth Gynllunio er mwyn sicrhau proses mor hawdd â phosib. Bydd hyn hefyd yn fodd o gael rhybudd cynnar ynglŷn ag unrhyw broblemau. |
| 12. Cynllun yn methu y prawf 'cadernid' | Ni all y Cynllun gael ei fabwysiadu heb orfod ymgymryd â gwaith sylweddol pellach. | Sicrhau bod y CDLl yn gadarn drwy sicrhau ein bod yn cydymffurfio gyda gweithdrefnau, deddfau, rheoliadau, ynghyd â'r holl brofion cadernid penodol. |
| 13. Her gyfreithiol | • Diddymu'r CDLl (neu rannau ohono) a fabwysiadwyd.<br>• Pwysau gwaith ychwanegol. | Sicrhau ein bod yn cydymffurfio gyda gweithdrefnau, deddfau, rheoliadau a.y.b. |
| 14. Etholiadau | • Rhaglen yn llithro.<br>• Aelodau newydd â barn wahanol ynglŷn â chynnwys y Cynllun – blaenoriaethau yn newid. | Sicrhau amserlen realistig sydd â hyblygrwydd iddo. |

**Atodiad 1 – Risgiau sydd wedi dylanwadu ar yr amserlen**

| | | |
|---|---|---|
| **Sylwadau Mehefin 2013**<br><br>Penderfynwyd cynnal etholiad lleol yn Ynys Mon ym mis Mai 2013 yn hytrach na Mai 2012. Fe lwyddwyd i gael cymeradwyaeth am Hoff Strategaeth y CDLl ar y Cyd cyn y cyfnod 'perdah' ond oherwydd y cyfnod hwnn nid oedd yn bosib cynnal yr ymgynghoriad cyhoeddus tan ar ol yr etholiad lleol. | | |
| 15. Problemau gyda gwaith T.G. / Problemau o ran gwaith GIS | Rhaglen yn llithro. | • Sicrhau amserlen realistig sydd â hyblygrwydd iddo.<br>• Sicrhau bod Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth y Cyngor yn ymwybodol o'r anghenion ac yn rhaglennu amser ar ein cyfer.<br>• Prynu meddalwedd bwrpasol. |
| 16. Canlyniadau'r AC/AAS yn amlinellu problem(au) annisgwyl. | • Llwyth gwaith ychwanegol.<br>• Rhaglen yn llithro. | • Sicrhau bod yr amserlen yn ddigon hyblyg i allu ymdopi gyda sefyllfa o'r fath.<br>• Ystyried adnoddau ychwanegol. |
| 17. Cyrff ymgynghori'n methu rhoi sylwadau mor gyflym â'r disgwyl. | Rhaglen yn llithro. | • Sicrhau bod grwpiau penodol yn cael eu hymgynghori a hwy yn fuan o fewn unrhyw gam perthnasol yn y broses.<br>• Ceisio ymgynghori ar adegau o'r flwyddyn ble mae'r mwyafrif o bobl yn debygol o fod yn eu gwaith e.e. nid yn ystod mis Awst neu dros y Nadolig. |

## Atodiad 1 – Risgiau sydd wedi dylanwadu ar yr amserlen

| | | |
|---|---|---|
| **Sylwadau Mehefin 2013**<br><br>Oherwydd mai ond ychydig o adnoddau oedd ar gael iddynt a'u llwyth gwaith ar y pryd, mae rhai rhanddeiliaid allweddol wedi methu ymateb mor sydyn ag oeddwn ei angen wrth ofyn am wybodaeth am gyfleon neu gyfyngiadau yn gysylltieidg a safleoedd posib. | | |
| 18. Derbyn gwybodaeth hwyr arwyddocaol. | • Rhaglen yn llithro.<br>• Pwysau gwaith ychwanegol. | Sicrhau bod yr amserlen yn ddigon hyblyg i allu ymdopi gyda sefyllfa o'r fath. |
| 19. Anghenion yn gyslltiedig a phrosiect Wylfa B | • Rhaglen yn llithro.<br>• Pwysau gwaith ychwanegol. | • Monitro cynnydd yn y prosiect yma<br><br>• Sicrhau cyswllt gwaith agos rhwng Tim Project Ynys Ynni a'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd |